Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru


# Beth all Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei wneud i wella llesiant o safbwynt cymunedol?

## Crynodeb o'r gweithdy a phecyn adnoddau

# Trosolwg a chyd-destun


# Crynodeb o'r gweithdy

Mae’r sleidiau hyn yn cyflwyno tystiolaeth o sawl prosiect ymchwil Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru sy’n ymwneud ag o ble daw gweithredu cymunedol, a ‘beth sy’n gweithio’ i’w alluogi a’i gefnogi o safbwynt sector cyhoeddus. Mae ymchwil a gynhaliwyd yn ystod pandemig y Coronafeirws yn pwysleisio gwerth gweithredu cymunedol wrth gefnogi saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae ei fanteision yn amrywio o ddarparu ymdeimlad o bwrpas a chydlyniant cymunedol, i weithredu treiddiol tuag at fynd i’r afael â heriau iechyd meddwl a chorfforol. Mae profiad y pandemig hefyd wedi amlygu pwysigrwydd gweithio tuag at y nodau llesiant ehangach hyn er mwyn galluogi a chynnal gweithredu cymunedol, a’r rôl sylweddol y gall llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus ei chwarae i gefnogi’r berthynas ddwy ffordd hon.



# Beth ydyn ni'n ei wybod am weithredu cymunedol?

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gweithredu cymunedol wedi'i seilio ar gysylltiad cymunedol, sydd, yn ei dro, wedi'i seilio ar gysylltiad cymdeithasol. Cysylltiad cymdeithasol yw ymdeimlad o **berthyn** a'r gallu i gysylltu ag eraill. Mae cysylltiad cymunedol yn disgrifio'r **rhwydweithiau** o bobl, grwpiau a sefydliadau a gaiff eu hadeiladu drwy gysylltiad cymdeithasol.



# Beth sy'n gweithio i gefnogi gweithredu cymdeithasol a chymunedol?




Mae ein tystiolaeth wedi darganfod bod cysylltiad cymdeithasol wedi'i seilio ar gael **pethau ystyrlon i'w gwneud** mewn cymunedau (e.e. chwaraeon, diwylliant, celfyddydau, gwasanaethau) a **llefydd cynhwysol i'w gwneud nhw.** Mae cysylltiad cymunedol wedi'i seilio ar y pethau ystyrlon hyn i'w gwneud a llefydd cynhwysol i'w gwneud nhw, ac fe'i gefnogir ymhellach gan **nodau a rennir** ar draws sectorau a sefydliadau, a **seilweithiau digidol a chorfforol i gefnogi cydlyniant.** Ar gyfer cysylltiad cymdeithasol a chymunedol (ac felly gweithredu cymunedol) **mae diben a rennir a seilweithiau cynhwysol yn allweddol.**

# Beth all Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei wneud?

Mae ein tystiolaeth yn awgrymu na wnaeth gweithredu cymunedol ymddangos mewn gwactod yn ystod y pandemig, ac ei bod yn bosibl bod gwasanaethau cyhoeddus wedi bod yn hanfodol wrth bennu pa mor effeithiol roedd modd i gymunedau drefnu mewn ymateb i adfyd. Mae camau posibl yn cynnwys:

## Pethau ystyrlon i'w gwneud...

- Hyrwyddo chwaraeon, celfyddydau, gweithgareddau diwylliannol a gwasanaethau dan arweiniad y gymuned, drwy ddarparu cyngor a chymorth ymarferol ar gyfer cael cyllid, llywio strwythurau cyfreithiol, a drwy ddarparu mynediad uniongyrchol i gyfleusterau neu dir a chyllid

## ...llefydd cynhwysol i'w gwneud nhw…

- Hyrwyddo cyfranogiad grwpiau lleiafrifol yn y gwaith o ddylunio, datblygu a chynnal gofodau cymunedol ar-lein a wyneb yn wyneb, er mwyn sicrhau eu bod yn groesawgar i bawb, a chreu neu hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyllid sydd wedi'u strwythuro i alluogi dull o'r fath.

# Beth all Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei wneud?

## Gweithio tuag at nodau a rennir...

- Arweiniodd y pandemig at ddiben a rennir ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus a chymunedol, ond mae ein hymchwil yn awgrymu y gall safbwynt cyfannol o lesiant wneud hynny hefyd. Roedd gweithio tuag at nodau a rennir fwyaf effeithiol pan roedd y sector cyhoeddus a chymunedol wedi sefydlu rolau a chyfrifoldebau clir, a llwybrau clir i weithio ar eu traws (e.e. cydweithio ac atgyfeirio). Roedd hyn yn galluogi meithrin 'cryfder o wahaniaeth' (e.e. capasiti grŵp cymunedol ar gyfer gwaith ataliol neu nodi angen, ac arbenigedd y gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau logistaidd i alluogi atgyfeirio ymlaen ac am allan lle bo angen).

## Seilweithiau i gefnogi cydlyniant...

- Amlygodd y pandemig bwysigrwydd seilweithiau corfforol a digidol wrth wneud lle ar gyfer a hwyluso'r 'gweithio cydgysylltiedig' a ddisgrifir uchod. Er enghraifft, llyfrgelloedd, hybiau cymunedol, canolfannau hamdden, a llwyfannau ar-lein amrywiol. Yn allweddol, roedd awdurdodau lleol yn creu lle ar gyfer perchnogaeth gymunedol (neu, lle bo'n briodol, cyd-berchnogaeth) dros y seilweithiau hyn, drwy roi sylw i lywodraethu, cyllid, a lleoliad.

# Cynnwys

*(Cliciwch ar y dolenni i neidio at yr adran)*


**Llesiant a gweithredu cymunedol**

Trosolwg a beth i'w ddisgwyl

Perthynas ddwy ffordd gyda nodau llesiant ehangach

**Cysylltiad cymdeithasol**

Beth ydyn ni'n ei wybod am ei berthynas â llesiant?

*Gweithgaredd: Cysylltu cysylltiad cymdeithasol a llesiant ehangach yn eich ardal chi*

Beth sy'n gweithio i'w gefnogi?

**Cysylltiad cymunedol**

Beth ydyn ni'n ei wybod am ei berthynas â llesiant?

*Gweithgaredd: Cysylltu cysylltiad cymunedol a llesiant ehangach yn eich ardal chi*

Beth sy'n gweithio i'w gefnogi?

**Crynodeb a darllen pellach**


Mae dolenni i fynd at adnoddau a chyfeirnodau drwy'r cyflwyniad.

Cyflwyniad

# Llesiant a gweithredu cymunedol

# Amcanion y gweithdy

- Cyflwyno tystiolaeth ar sut i alluogi a chynnal gweithredu cymunedol, i'ch cefnogi i nodi gweithredoedd sy'n gwella llesiant cymunedol a mynd i'r afael â themâu allweddol:

  **Unigrwydd a lles iechyd meddwl**

  Hwb **Rôl grwpiau a chanolfannau cymunedol**

  **Gwirfoddoli**

  **Cysylltiad digidol a goresgyn dieithrwch digidol**

  **Gweithio cydweithredol**

- Tystiolaeth o arfer ar draws Cymru yn ystod y pandemig
- Trafod beth mae'n ei olygu o safbwynt Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

# Trosolwg o'r gweithdy




**Cysylltiad cymdeithasol:**

- Beth ydyn ni'n ei wybod am ei berthynas â llesiant?
- Beth sy'n gweithio i'w gefnogi?
- Pa gamau allai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu cymryd?

**Cysylltiad cymunedol:**


- Beth ydyn ni'n ei wybod am ei berthynas â llesiant?
- Beth sy'n gweithio i'w gefnogi?
- Pa gamau allai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu cymryd?

@WCfPP

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru


# Gweithredu cymunedol a llesiant

## Perthynas ddwy ffordd



# Gweithredu cymunedol a llesiant

## *Er enghraifft...*




*Mwy o enghreifftiau…*

Balchder mewn lle a dinasyddiaeth weithredol

Denu buddsoddiad mewn llefydd

Darparu pethau ystyrlon i'w gwneud




Rhwydweithiau cymorth V adfyd

Adeiladu rhwydweithiau a pherthyn

Llesiant ataliol

Mynediad at wasanaethau a gweithgareddau

# Gweithredu cymunedol a llesiant – trafodaeth gweithdy

*Sut gallai galluogi a chynnal gweithredu cymunedol helpu i gyflawni nodau llesiant ehangach? Sut gallai gweithio tuag at nodau llesiant ehangach helpu i alluogi a chynnal gweithredu cymunedol?*

**Dywedodd cyfranogwyr...**

I fi, mae gweithredu cymunedol yn ymwneud â symud y grym, lle mae cymuned yn cymryd perchnogaeth dros ei hiechyd a'i llesiant – ac mae gan y symudiad hwn mewn grym botensial i gyfrannu at yr holl nodau llesiant.

Enghraifft o sut gall gweithredu cymunedol helpu i sicrhau 'Cymru gydnerth' – daeth grŵp o wirfoddolwyr at ei gilydd i adeiladu ffatri trydan dŵr yn y dre, er mwyn i fuddsoddwyr lleol elwa ar y trydan rhad a gynhyrchir. Roedd hyn yn enghraifft dda o gymuned yn cymryd perchnogaeth dros yr argyfwng ynni.

# Pam archwilio cysylltiadau rhwng nodau llesiant a gweithredu cymunedol?

…helpu i ddeall gwahanol gyfleoedd a heriau, ac felly nodi camau penodol (ataliol ac ymatebol) y gellir eu cymryd fel rhan o ddull cydlynus a chyfannol

Nid yw hyn i ddweud bod gweithredu cymunedol yn fwled hud sy'n gallu datrys popeth – na chwaith yn symud problemau neu ddatrysiadau i rywle arall

Mae'n fwy er mwyn deall beth ellir ei wneud mewn cyd-destunau penodol, ar wahanol lefelau, ar draws sectorau a rhannau gwahanol o'r system, a sut gallen nhw gyd-fynd â'i gilydd

@WCfPP

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru


Adran 1

# Cysylltiad cymdeithasol

## Beth ydyn ni'n ei wybod am ei berthynas â llesiant? Beth sy'n gweithio i'w gefnogi? Pa gamau allai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu cymryd?

# Cysylltiad cymdeithasol: beth ydyn ni'n ei wybod?

- Cysylltiad cymdeithasol = ymdeimlad o berthyn a gallu i gysylltu ag eraill
- Unigrwydd fel ymdeimlad o ddiffyg cysylltiad cymdeithasol digonol
- Mae'n amlygu mewn gwahanol ffyrdd – nid bob amser/dim ond yn ymwneud â chyswllt cymdeithasol, ond hefyd teimlo wedi'u datgysylltu, eu heithrio, yn ddigroeso, neu ddiffyg ymdeimlad o ddiben neu rôl mewn cymdeithas
- Mae unigrwydd yn gysylltiedig â iechyd meddwl a llesiant emosiynol ehangach – ac mae ganddo gydberthynas gref gydag anghydraddoldebau er




Adnodd: Fideo unigrwydd

# Cysylltiad cymdeithasol: beth ydyn ni'n ei wybod?


Mae cysylltiad agos rhwng unigrwydd ac anghydraddoldebau strwythurol. Mae adroddiadau o unigrwydd yn amrywio yn ôl nodweddion unigol ac amgylchiadau personol.

- Mae pobl iau yn fwy tebygol o adrodd eu bod nhw'n unig.
- Mae menywod yn adrodd lefelau uwch o unigrwydd emosiynol, ac mae dynion yn adrodd lefelau uwch o unigrwydd cymdeithasol.
- Mae'r rhai sydd â salwch neu anabledd hirdymor yn fwy unig na'r rhai sydd heb y cyflyrau hyn.
- Mae pobl o gefndiroedd lleiafrifol yn fwy unig na phobl sy'n arddel hunaniaeth Prydeinig gwyn.
- Mae pobl mewn aelwydydd un oedolyn yn adrodd lefelau uwch o unigrwydd, a rhieni sengl yw'r mwyaf unig.

Cyfeirnod: Pwy sy'n unig yng Nghymru?

# Cysylltiad cymdeithasol: beth ydyn ni'n ei wybod?

## Enghraifft: Croestoriad unigrwydd – Oedran ac Amddifadedd





Adroddodd 23.3% o bobl 16-24 oed eu bod nhw'n unig. Ymhlith pobl 16-24 oed â salwch hirdymor neu anabledd, mae hyn yn codi i 42.2%.

Mae pobl iau sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn fwy unig na phobl hŷn mewn amgylchiadau tebyg.

Cyfeirnod: Oedran ac Unigrwydd yng Nghymru

# Cysylltiad cymdeithasol: beth ydyn ni'n ei wybod?

## Enghraifft: Croestoriad unigrwydd – Oedran ac Ethnigrwydd





Ar draws pob grŵp oedran, mae'r rhai o gefndiroedd lleiafrifol o ran hil yn fwy unig na'r rhai sy'n arddel hunaniaeth Gwyn Prydeinig.

Cyfeirnod: Oedran ac Unigrwydd yng Nghymru

# Cysylltiad cymdeithasol: beth ydyn ni'n ei wybod?

## Enghraifft: Croestoriad unigrwydd – Iechyd ac Aelwyd




Mae pobl sydd â iechyd gwael yn fwy unig na phobl iach. Mae iechyd gwael iawn yn rhyngweithio â chyfansoddiad cartref i gynyddu neu i leihau unigrwydd ymhellach.


Cyfeirnod: Iechyd ac Unigrwydd yng Nghymru

@WCfPP

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Cysylltiad cymdeithasol: beth ydyn ni'n ei wybod?

Sut gall gwahanol 'nodweddion' a'u croestoriad drosi i deimladau o ddiffyg cysylltiad cymdeithasol – efallai na fyddan nhw (bob amser) yn adlewyrchu diffyg rhyngweithiadau cymdeithasol gwirioneddol, ond yn hytrach diffyg teimladau o berthyn a phwrpas




Cyfeirnod: Rôl cymunedau a thechnoleg wrth liniaru unigrwydd

@WCfPP

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Cysylltiad cymdeithasol: trafodaeth

Beth yw'r cysylltiadau rhwng cysylltiad cymdeithasol a llesiant ehangach yn eich ardal chi?

- Cysylltiad cymdeithasol = ymdeimlad o berthyn a gallu i gysylltu ag eraill
- Amlochrog (nid yw'n ymwneud â chysylltiad cymdeithasol yn unig)
- Cysylltiedig ag anghydraddoldebau ehangach

**Gofynnon ni i gyfranogwyr feddwl am...**

- Beth rydych chi'n ei wybod o'ch asesiadau llesiant a gwybodaeth leol – ar gyfer pwy ac ym mha ffyrdd mae cysylltiad cymdeithasol yn fater llesiant yn eich ardal chi
- ACHOSION a CHANLYNIADAU cysylltiad cymdeithasol/diffyg cysylltiad cymdeithasol ar draws gwahanol ddimensiynau llesiant

# Beth yw'r cysylltiadau rhwng cysylltiad cymdeithasol a nodau llesiant ehangach yn eich ardal chi?

Dywedodd cyfranogwyr...

| | |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Mae buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus a chefnogaeth ar gyfer teithio llesol yn helpu i atal ynysu cymdeithasol<br><br>Gall ynysu cymdeithasol arwain at iechyd meddwl gwael sy'n effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth |
| Cymru iachach | Mae pobl â iechyd meddwl a chorfforol gwael yn fwy tebygol o brofi unigrwydd<br><br>Mae egwyddorion Marmot yn cysylltu cysylltiad cymdeithasol gyda'r nod o greu llefydd iach a chynaliadwy – cysylltiad clir rhwng cysylltiad cymdeithasol a iechyd da<br><br>Mae seilwaith i gefnogi teithio llesol a chysylltu cymunedau hefyd yn hyrwyddo iechyd y boblogaeth |

# Beth yw'r cysylltiadau rhwng cysylltiad cymdeithasol a nodau llesiant ehangach yn eich ardal chi?

Dywedodd cyfranogwyr...

| | |
|---|---|
| Cymru gydnerth | Mae mynediad at fannau gwyrdd o ansawdd da yn cefnogi cysylltiad cymdeithasol<br><br>Mae prosiectau i wella/creu mannau gwyrdd cymunedol yn dod â phobl ynghyd ac yn rhoi ymdeimlad o bwrpas iddyn nhw |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Daeth rhai gweithgareddau a grwpiau yn fwy cynhwysol/hygyrch drwy symud ar-lein yn ystod y pandemig<br><br>Mae anghydraddoldebau amlwg o ran mynediad at drafnidiaeth ac felly mynediad at wasanaethau a chysylltiadau (gydag effeithiau cysylltiedig ar unigrwydd, ynysrwydd a llesiant). Mae'r argyfwng costau byw yn gwaethygu'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng llefydd o ran cysylltiadau trafnidiaeth ac ynysrwydd cymdeithasol |

# Beth yw'r cysylltiadau rhwng cysylltiad cymdeithasol a nodau llesiant ehangach yn eich ardal chi?

Dywedodd cyfranogwyr...

| | |
|---|---|
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae balchder cymunedau yn eu diwylliant a'u treftadaeth yn gallu hyrwyddo cysylltiad cymdeithasol ac mae cyfle i adeiladu ar hyn. Ond mae'n anodd taro cydbwysedd – cadw treftadaeth gan fod yn agored i ddiwylliannau eraill ac osgoi'r perygl o eithrio ac ynysu pobl o wahanol gefndiroedd |
| Cymru o gymunedau cydlynus | I ryw raddau, yn ystod y pandemig fe welon ni wahanol brofiad o gysylltiad cymdeithasol – gan ddefnyddio technoleg ddigidol a gweithredu cymunedol/gwirfoddoli yn estyn allan ac yn adeiladu cysylltiadau gyda'r bobl fwyaf bregus |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Mae gan wirfoddoli botensial i hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang a chysylltiadau cymdeithasol |

# Cysylltiad cymdeithasol: beth sy'n gweithio?

'Beth sy'n gweithio' i alluogi a chynnal cysylltiad cymdeithasol i gefnogi llesiant?

**Pethau ystyrlon i'w gwneud a llefydd cynhwysol i'w gwneud nhw**

**Nodweddion:**

- Cerrig camu a phwrpas
- Trafodol i berthynol a phwysigrwydd cyd-fudd
- Amgylcheddau corfforol a digidol cynhwysol

**Galluogwyr:**

- Cyllid a pherchnogaeth
- Sgiliau a rhwydweithiau yn y gymuned
- Seilweithiau a gweithgareddau cymunedol presennol a newydd

@WCfPP

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Cysylltiad cymdeithasol: beth sy'n gweithio?

## Cerrig camu a phwrpas

Bod yn rhagweithiol a rhoi'r llwybr i bobl ar gyfer sut mae cymryd rhan, a pheidio â'i adael iddyn nhw. Peidio â'u plagio a rhefru arnyn nhw, ond cael pethau ymarferol felly mae hi'n glir sut mae cymryd rhan ac nad yw'n cymryd llawer o ymdrech.

Aelod o Grŵp Seiliedig ar Ddiddordeb

Mae fy hyder yn ddiddiwedd nawr. Dw i ddim yn ofni mynd tu allan mwyach. Dw i wrth fy modd yn cwrdd â phobl newydd. Rhoddodd [y ganolfan wirfoddoli] fy mywyd 'nôl i fi. Rhoddon nhw bwrpas i fi.

Adnodd: Fideo cerrig camu a phwrpas
Cyfeirnod (t.24-31): Rôl cymunedau a thechnoleg wrth liniaru unigrwydd
Cyfeirnod (t.16): Gwirfoddoli a llesiant yn ystod y pandemig

# Cysylltiad cymdeithasol: beth sy'n gweithio?

Hwb

## Trafodol i emosiynol a phwysigrwydd cyd-fudd

**Fe wnes i rai cysylltiadau eithaf dwfn gyda rhai o'r teuluoedd hynny, yn enwedig pobl hŷn roedden ni'n eu helpu, ac rydw i'n eu helpu bob wythnos nawr, ddim o reidrwydd... dydw i ddim yn gweld fy hun fel gwirfoddolwr ar gyfer hynny, rydw i'n gwneud hynny oherwydd ein bod yn ffrindiau erbyn hyn, ti'n gwybod.**

Cydlynydd Grŵp Seiliedig ar Le

**Wnes i ddysgu nad ydw i ar fy mhen fy hun. Dwi'n gwybod ro'n i'n teimlo fy mod ar fy mhen fy hun... ond nawr rwy'n teimlo bod gennym ni gymuned. Ro'n i angen i rywun dweud, "Helo, dw i yma"**

Cydlynydd Grŵp Seiliedig ar Le

"Dw i ddim yn siŵr pwy sy'n helpu pwy fwyaf! Mae straeon, profiadau byw a safbwyntiau'r bobl dw i wedi siopa iddyn nhw wedi fy ysbrydoli i llawer."

# Cysylltiad cymdeithasol: beth sy'n gweithio?

Amgylcheddau cynhwysol: sownd oddi ar-lein a digidol wedi'i seilio

Mae caffis, clwbiau a chyngorau i gyd yn cynyddu cyfathrebiad digidol

Ategu gyda galwadau ffôn, darparu taflenni a ioga carreg drws



Goresgyn dieithrwch digidol

**Byd ar lein yn ymddangos yn ddiogel, adnabyddadwy a chroesawgar.**

"er ein bod ni'n meddwl am y byd seiber fel rhywbeth datgysylltiedig a rhywbeth byd-eang, mae'n sicr modd ei ddefnyddio ar lefel micro-gymuned"

# Cysylltiad cymdeithasol: beth sy'n gweithio?

Amgylcheddau cynhwysol: sownd ar-lein

Roeddwn i ar fy mhen fy hun yn aml oherwydd bod gen i salwch cronig.... Felly mae gen i brofiad, cyn y pandemig, o ynysu cymdeithasol a defnyddio pethau ar-lein fel yr unig ffordd o gyfathrebu â phobl...Doedd dim byd gallwn i ei wneud yn bersonol cyn i mi ddechrau'r grŵp arall.

Aelod o Grŵp Seiliedig ar Ddiddordeb

Rwy'n meddwl mai un o'r pethau, y darn mwyaf rhwystredig yw ei bod hi'n ymddangos bod pobl LGBT yn byw eu bywyd ar-lein. Felly, sut mae dianc rhag bod ar-lein os mai dyna'r unig opsiwn? Y rheswm am hyn yw bod pobl LGBT ar Grindr, ar grwpiau hoyw. Dyna sut maen nhw'n cysylltu â'i gilydd oherwydd does dim mannau diogel

Cydlynydd Grŵp Seiliedig ar Ddiddordeb

@WCfPP

Adnodd: Fideo mannau cyfunol
Cyfeirnod (t.32-39): Rôl cymunedau a thechnoleg wrth liniaru unigrwydd

# Cysylltiad cymdeithasol: beth sy'n gweithio?

Galluogwyr pethau ystyrlon i'w gwneud a llefydd cynhwysol i'w gwneud nhw:

- Sgiliau a rhwydweithiau yn y gymuned
- Cyllid ar gyfer syniadau cymunedol a pherchnogaeth (ystyr a chyd-fudd)
- Cefnogaeth – datblygu sgiliau/gwybodaeth
- Seilweithiau a gweithgareddau cymunedol presennol a newydd (corfforol a digidol)

# Cysylltiad cymdeithasol: beth sy'n gweithio?

## Sut i weithredu 'beth sy'n gweithio'?

**Pethau ystyrlon i'w gwneud**

- Hyrwyddo a buddsoddi mewn gwasanaethau, chwaraeon, hamdden, celfyddydau a diwylliant cymunedol sy'n darparu gweithgareddau rhyngweithio cymdeithasol **ystyrlon â phwysau isel** ac ymdeimlad o **bwrpas.**

**Llefydd cynhwysol i'w gwneud nhw**

- Cefnogi cymunedau i ddatblygu a chynnal amgylcheddau corfforol a digidol **croesawgar a hygyrch** drwy roi sylw i **sut** ac nid yn unig pa seilweithiau gaiff eu datblygu.


Adran 2

# Cysylltiad cymunedol

## Beth ydyn ni'n ei wybod am ei berthynas â llesiant?
## Beth sy'n gweithio i'w gefnogi?
## Pa gamau allai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu cymryd?

# Cysylltiad cymunedol: beth ydyn ni'n ei wybod?

- Cysylltiad cymunedol = rhwydweithiau personol a phroffesiynol ar draws sefydliadau a grwpiau, wedi'u hadeiladu drwy gysylltiad cymdeithasol
- Sail i'r ymateb i'r pandemig a manteision llesiant
- Nid oedd pob unigolyn a chymuned yn teimlo'r manteision hyn
- Roedd gweithredu cymunedol wedi'i rwydweithio'n eang




Cyfeirnod (t.18-21): Rôl cymunedau a thechnoleg wrth liniaru unigrwydd

# Cysylltiad cymunedol: beth ydyn ni'n ei wybod?

Wnaeth gweithredu cymunedol ddim ymddangos o unman

**Byddwn i'n dweud bod y rhwydweithiau cymdeithasol eisoes wedi ennill eu lle yn y dref. Nid dim ond oherwydd pethau amlwg fel y [cynllun gweithredu cymunedol]. Roedden nhw wedi ennill eu lle oherwydd gweithgareddau diwylliannol cryf yn y dref...Mae llawer o bethau'n mynd ymlaen yma. Mae'r cwbl yn cyfrannu at greu rhwydwaith sy'n ein gwneud ni'n gryfach.**

Cydlynydd Grŵp Seiliedig ar Ddiddordeb a Grŵp Seiliedig ar Le

"Beth ydych chi'n ei wneud? Beth wnewch chi nesa?" Ro'n i'n meddwl, "Wel daliwch arni. Rydyn ni'n gwneud cymaint yn y dre 'ma fel mae hi. Oes angen ni nawr ddod i fyny…?" Ro'n i braidd yn amddiffynnol am hynny" (cydlynydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus).

# Cysylltiad cymunedol: beth ydyn ni'n ei wybod?

Wnaeth gweithredu cymunedol ddim digwydd ar ei ben ei hunan

**Os oes lot fawr o bethau'n digwydd yn sydyn, mae hi'n hawdd iawn, dwi ddim yn golygu mynd i'ch cragen, ond diogelu eich hun drwy, ia, cuddio dan y blancedi.... Ond, mewn gwirionedd, rwy'n meddwl mai'r ffordd rydych chi'n amddiffyn eich hun, a'r ffordd rydych chi'n cadw'n gryf, yw agor eich hun, mewn gwirionedd, a dweud "Na, mae angen i ni edrych allan. Mae angen i ni gysylltu â phobl."**

Cydlynydd Grŵp Seiliedig ar Le

Rydyn ni wedi cael trafodaethau wythnosol (a dyddiol weithiau!) gyda FLVC er mwyn ein helpu ni i reoli'r gwaith o sefydlu seilwaith mor fawr yn gyflym iawn i ddosbarthu bwyd a rheoli gwirfoddolwyr. Maen nhw wedi rhoi cysylltiadau i ni at grwpiau a sefydliadau eraill.

# Cysylltiad cymunedol: trafodaeth

Beth yw'r cysylltiadau rhwng cysylltiad cymunedol a llesiant ehangach yn eich ardal chi?

- Cysylltiad cymunedol = rhwydweithiau personol a phroffesiynol a adeiladwyd drwy gysylltiad cymdeithasol
- Sail i'r ymateb i'r pandemig a manteision llesiant
- Nid oedd pob unigolyn a chymuned yn teimlo'r manteision hyn
- Roedd gweithredu cymunedol wedi'i rwydweithio'n eang

**Gofynnon ni ynghylch...**

- Beth ydych chi'n ei wybod o'ch asesiadau llesiant a gwybodaeth leol – beth mae cysylltiad cymunedol yn ei olygu yn eich ardal chi?
- ACHOSION a CHANLYNIADAU cysylltiad cymunedol/diffyg cysylltiad ar draws gwahanol ddimensiynau llesiant

# Beth yw'r cysylltiadau rhwng cysylltiad cymunedol a nodau llesiant ehangach yn eich ardal?

Dywedodd cyfranogwyr...

| | |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Mae cysylltiad cymunedol yn ddibynnol ar fuddsoddiad mewn sgiliau a datblygiad |
| Cymru iachach | Mae gan gysylltiad cymunedol i gefnogi gwirfoddoli fanteision iechyd meddwl a chorfforol i gyfranogwyr – yn enwedig mewn perthynas â mannau gwyrdd/awyr agored |
| Cymru gydnerth | Mae cysylltiad cymunedol yn aml yn datblygu o gwmpas materion cyffredin o ddiddordeb neu bryder, ond efallai y bydd angen cefnogaeth ar gymunedau i ddod at ei gilydd acymateb ar y cyd |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Mae angen i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus wella eu gwaith ymgysylltu â'u cymunedau, gan flaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer cydgynhyrchu a datblygiad cymunedol – mae pob cymuned yn wahanol ac mae ganddyn nhw eu hanghenion eu hunain |

# Cysylltiad cymunedol: beth sy'n gweithio?

Beth sy'n gweithio i alluogi a chynnal cysylltiad cymunedol i gefnogi llesiant?

**Nodau a rennir a seilweithiau i gefnogi cydlyniant**

Nodweddion:

- Gweithredu rhwydweithiol
- Cryfder mewn gwahaniaeth
- Cydlynu seilweithiau

Galluogwyr:

- Cyllid a pherchnogaeth
- Sgiliau a rhwydweithiau yn y gymuned
- Seilweithiau a gweithgareddau cymunedol presennol a newydd

Adnodd: Fideo Gweithredu rhwydweithiol
Cyfeirnod (t.40-52): Rôl cymunedau a thechnoleg wrth liniaru unigrwydd
Cyfeirnod (t.18-20): Gwirfoddoli a llesiant yn ystod y pandemig

# Cysylltiad cymunedol: beth sy'n gweithio?

- Gweithredu rhwydweithiol

Rwy'n credu mai'r peth pwysicaf oedd cefnogaeth y bobl leol a chefnogaeth sefydliadau statudol lleol, a'r sefydliadau trydydd sector a'r holl rwydweithio sydd wedi bod yn digwydd.



# Cysylltiad cymunedol: beth sy'n gweithio?

- Cydweithio a chryfder mewn gwahaniaeth

**Mae cymaint o gyfoeth o arbenigedd o fewn grwpiau a chymunedau, ac mae'n ymwneud â defnyddio hwnnw a pheidio â thybio mai chi yw'r arbenigwr. Yn yr un modd â gydag unrhyw beth. Rydw i bob amser yn meddwl rhywbeth fel, "O, mae gen i awydd mynd i'r Lleuad. Oes unrhyw ofodwyr yn y grŵp?" Wir yr. Mae yna rywun bob tro.**

Cydlynydd Grŵp Seiliedig ar Ddiddordeb


"Dydy e ddim yn rhywbeth brawychus i ymwneud ag e. Rydych chi'n cael ymateb gwahanol iawn un ai'n gweithio i elusen neu'n gweithio i'r cyngor. Rwy'n amau bod hyn yn lefel arall o anffurfiol unwaith eto lle mae hi ychydig yn haws cysylltu ag e" (cydlynydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus).

**Felly mae gen i ddyn ar y ffôn sy'n bygwth lladd ei hun. Beth ydw i'n ei wneud am hynny? Dydw i ddim eisiau gwneud hyn yn anghywir.... Rwy'n meddwl bod angen i ni ei gwneud hi'n haws gwybod pwy i'w ffonio mewn argyfwng a phwy fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb.... Felly mae'n ymwneud â chydlynu cyrff allanol, am wn i, a rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i wirfoddolwyr (...) er mwyn gallu siarad â nhw.**

Cydlynydd Grŵp Seiliedig ar Le

# Cysylltiad cymunedol: beth sy'n gweithio?

- Cydlynu seilweithiau



# Cysylltiad cymunedol: beth sy'n gweithio?

Galluogwyr diben a rennir a chydlynu seilweithiau:

- Cyllid a pherchnogaeth
- Sgiliau a rhwydweithiau yn y gymuned
- Seilweithiau a gweithgareddau cymunedol presennol a newydd

# Cysylltiad cymunedol: beth sy'n gweithio?

## Sut i weithredu 'beth sy'n gweithio'?


**Nodau a rennir**

- Cyd-barch/cefnogaeth; rolau cydgysylltu; gweithdrefn a phrotocol; rolau a chyfrifoldebau; cydlyniant

**Seilweithiau i gefnogi cydlyniant**

- 'Sut' ac nid 'beth'; cymorth cyfreithiol ac ariannol; perchnogaeth a llywodraethu; cefnogi ac nid rheoli.

# Crynodeb




Pa gamau gweithredu allwch chi fynd â nhw o'r gweithdy hwn?

Sut gallen nhw gefnogi eich dyheadau i wella llesiant cymunedol?

Pa gamau mewn ardaloedd ehangach sydd eu hangen hefyd?

**Gallwch ddysgu mwy am ein gwaith ar ein gwefan:**

- Pwy sy'n unig yng Nghymru?
- Gwirfoddoli a llesiant yn y pandemig: Dysgu o ymarfer
- Rôl cymunedau a'r defnydd o dechnoleg wrth liniaru unigrwydd yn ystod y pandemig.
- Syniadau rhanddeiliaid ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd yng Nghymru drwy'r pandemig a'r tu hwnt

**Os hoffech siarad mwy gyda ni, cysylltwch â ni:**

Hannah.durrant@wcpp.org.uk

**Wales Centre**
**for Public Policy**
**Canolfan Polisi**
**Cyhoeddus Cymru**

@WCfPP

**www.wcpp.org.uk**

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff, CF24 4HQ
Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Ffordd Maindy, Caerdydd, CF24 4HQ